# Tasg 1

**(Heriol, sbardun 2)**

**TASGAU DARLLEN A DEALL**

**Tasg 1**

Dewiswch yr ateb cywir bob tro.

1. Pam mae Hedd Emrys yn gwneud gemwaith o hen lestri?
   a) Oherwydd ei bod hi'n credu'n gryf mewn cynllunio
   b) Oherwydd ei bod hi'n hoffi torri a llunio tsieni
   c) Oherwydd ei bod hi'n credu'n gryf mewn ailgylchu ac ailddefnyddio

2. Pwy arall yn y teulu sy'n hoffi ailddefnyddio pethau?
   a) ei brawd
   b) ei mam
   c) ei phlant

3. Pa brofiad oedd gan Hedd Emrys o dorri a llunio tsieni?
   a) Roedd hi'n gwneud mosaig
   b) Roedd hi'n dilyn ei mam
   c) Roedd hi'n dilyn gwaith cynllunwyr enwog

4. Sut mae *Pretty Fragmented* yn helpu'r amgylchedd?
   a) Mae'n torri a llunio tsieini
   b) Mae'n ailddefnyddio hen lestri fyddai wedi cael eu taflu i'r bin
   c) Mae'n creu gemwaith o hen lestri roedd pobl yn eu defnyddio pan o'n nhw'n blant

5. Sut mae patrymau hyfryd yn y gemwaith?
   a) Oherwydd bod Hedd Emrys yn defnyddio gwaith cynllunwyr enwog
   b) Oherwydd bod Hedd Emrys yn defnyddio llestri wedi torri
   c) Oherwydd bod hanes i bob darn o lestri

6. Pam mae pob darn o emwaith yn unigryw?
   a) Oherwydd bod peiriant yn ei gynhyrchu
   b) Oherwydd ei fod yn cael ei fasgynhyrchu
   c) Oherwydd ei fod yn cael ei wneud â llaw

7. Pam mae cwsmeriaid yn hoffi gemwaith *Pretty Fragmented*?
   a) Oherwydd ei fod yn heriol
   b) Oherwydd ei fod yn ecogyfeillgar
   c) Oherwydd ei fod yn dod o Gaerdydd

8. Pa un o'r brawddegau hyn sy'n wir am *Pretty Fragmented*?
   a) Mae'n defnyddio hen lestri i greu gemwaith hen ffasiwn
   b) Mae'n defnyddio hen lestri i greu gemwaith modern a ffasiynol
   c) Mae'n defnyddio llestri newydd i greu gemwaith

9. Ble mae'r gemwaith yn cael ei werthu ar hyn o bryd?
   a) ar y we'n unig
   b) mewn siopau mawr
   c) ar y we ac mewn ffeiriau

10. Sut hoffai Hedd Emrys weld y busnes yn datblygu?
    a) Hoffai symud y busnes dramor
    b) Hoffai weld y gemwaith yn gwerthu yn y DU a thramor
    c) Hoffai weld y gemwaith yn gwerthu yn y DU yn unig

**Tasg 2**

Chwiliwch am yr **ansoddeiriau** yn y darn sy'n cyfateb i'r diffiniadau yn y tabl. Weithiau mae'r ansoddair wedi'i dreiglo, felly bydd angen ei ysgrifennu fel y byddai yn y geiriadur, h.y. heb ei dreiglo.

| **Ansoddair** (mae'r llythyren gyntaf wedi'i rhoi ichi) | **Diffiniad** |
|---|---|
| **a**........................ | anodd ei gredu |
| **b**.......................... | hyfryd, gwych |
| **c**........................... | mae person sy'n gallu creu rhywbeth yn berson ....................... |
| **d**.......................... | yn dda am greu neu ddyfeisio |
| **d.**......................... | perffaith, fel y dylai fod |
| **ff**.......................... | yn dilyn y ffasiwn |
| **g**.......................... | newydd, ffres |
| **u**......................... | yn wahanol i bopeth arall |

Dewiswch 5 o'r ansoddeiriau hyn ac ysgrifennu brawddeg yn cynnwys un ansoddair ar y tro.